# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Traed Bach**

**Yr Hen Lyfrgell**
**Stryd yr Aradr**
**Llanrwst**
**LL26 0AG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

22/6/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Meithrinfa Traed Bach

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Traed Bach Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 42 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Mewnosod â llaw<br><br>02 Awst 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Mewnosod â llaw<br><br>Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu. Mae eu barn yn cael ei gwerthfawrogi a gweithredir arni. Maent yn ymdopi'n dda â chael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni / gofalwyr oherwydd eu bod yn cael croeso cynnes gan y staff. Mae'r plant yn egnïol ac yn mwynhau gwneud dewisiadau am yr hyn y maent am chwarae ag ef. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r rhai sy'n gofalu amdanynt yn gadarnhaol ac o ganlyniad, mae'r plant yn mwynhau eu gweithgareddau. Maent yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth yn llwyddiannus. Mae gan y staff agwedd gynnes a chyfeillgar at roi gofal. Maent yn canmol y plant am eu hymdrechion a'u cyflawniadau. Mae'r gweithgareddau chwarae wedi'u trefnu'n dda gan gefnogi'r plant i ddatblygu eu medrau corfforol yn dda. Mae’r staff yn hyrwyddo'r rhan fwyaf o arferion iach yn effeithiol. Mae'r amgylchedd dan do yn lân ac wedi'i drefnu'n ddeniadol. Mae'r amgylchedd awyr agored yn cynnig cyfleoedd da i blant ymarfer eu sgiliau cydsymud. Mae'r teganau, adnoddau ac offer yn briodol ac yn addas ar gyfer oedrannau’r plant y gofelir amdanynt. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gwneud gwelliannau sylweddol ac wedi ymrwymo i greu canlyniadau gwell i’r plant. Mae'r lleoliad yn gweithredu'n ddwyieithog.

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn fodlon ac yn mynegi mwynhad. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, maent yn dechrau ffurfio cyfeillgarwch, ac yn dod yn gyfarwydd â threfniadau arferol.

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus gan fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion, yn gyffredinol, yn cael eu hystyried. Er enghraifft, cyn mynd i'r ysgol, gwnaeth plentyn gais i eistedd yn sedd flaen y car a derbyniwyd ei gais. Dywedodd plentyn yn llawn cyffro ei fod yn hoffi dod i'r lleoliad i beintio a chwarae gyda'r teganau merlod ac ungorn. Siaradodd y plant â ni am y lolipops rhew cawson nhw ar ôl chwarae yn yr heulwen a dywedon nhw fod y 'roced' yn blasu'n 'braf'.

Mae'r plant yn ymdopi'n dda â gwahanu oddi wrth eu rhieni / gofalwyr oherwydd bod y staff cyfeillgar yn eu croesawu'n gynnes. Maent yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac yn dangos i ni sut maent yn golchi a sychu eu dwylo ac yn rhoi'r tywel papur yn y bin a ddarperir. Mae'r plant yn teimlo'n gyfforddus ac yn mynd at y staff yn rhwydd i wneud eu ceisiadau, er enghraifft, yn ystod amser brecwast, gwnaethant ofyn am fwy o rawnfwyd, llaeth neu ddŵr i'w yfed a rhoddwyd hwn iddynt ar unwaith.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol, mae llawer o'r plant yn cydweithredu'n dda ac yn gyffredinol mae ganddynt ddiddordeb ac maent yn ymgysylltu. Maent yn mwynhau'r achlysur cymdeithasol amser pryd bwyd; eisteddant yn braf wrth y bwrdd ac maent yn gwrtais. Mae'r plant yn ffurfio cyfeillgarwch ac yn dysgu cymryd eu tro a rhannu. Er enghraifft, yn ystod cyfnod chwarae awyr agored, cymerodd dau ffrind eu tro i reidio i lawr y ramp ar eu beiciau. Mwynhaodd y plant ieuengaf roi cwtsh i'w ffrind.

Mae'r plant yn egnïol a chwilfrydig. Maent yn mwynhau cyfleoedd priodol o dan do ac yn yr awyr agored a gallant hefyd ymlacio a chael adegau distaw. Er enghraifft, roedd y plant ieuengaf yn mwynhau archwilio'r peli lliw o wahanol faint, gan ddal eu hoff bêl i fyny i ddangos i'r staff. Roedd plant eraill yn gweithio'n dda fel tîm, yn adeiladu trac trên pren ac yn helpu ei gilydd i osod y cerbydau ar y trac. Gwnaethant arbrofi ar gyflymder a mudiant, gan weld pa mor gyflym y gall y cerbydau symud. Roedd rhai o'r plant yn mwynhau amser tawel ac wedi dewis llyfr i edrych arno a'i ddarllen gyda'r staff. Roeddent yn pwyntio'n weithredol at y lluniau a gofyn ac ateb cwestiynau.

Mae'r plant ieuengaf yn dangos dyfalbarhad a phenderfyniad i ddringo grisiau’r sleid ac yn cael pleser o’u cyflawniadau eu hunain trwy ailadrodd yr ymarfer. Mae'r plant yn ymbaratoi i fynd i'r ysgol eu hunain yn dda ac yn gwneud yn siŵr bod ganddynt bopeth sydd ei angen arnynt yn barod. Mae gan y plant ieuengaf fedrau da i fwydo eu hunain ac maent yn mwynhau bwyta eu cinio. Mae'r plant yn dysgu sut i wneud pethau drostynt eu hunain gydag anogaeth gadarnhaol oddi wrth y staff.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y staff agwedd gyfeillgar a gofalgar ac maent yn rheoli rhyngweithio yn gadarnhaol. Maent yn canmol y plant am eu hymdrechion a'u cyflawniadau.

Mae'r staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau o ran cadw’r plant yn ddiogel ac yn iach. Cymerir camau rhesymol i leihau risgiau o niwed i lesiant a diogelwch y plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o weithdrefnau diogelu. Mae bron pob un aelod o’r staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf a diogelu sy’n addas ar gyfer ystodau oedrannau'r plant y gofelir amdanynt. Mae damweiniau a digwyddiadau'n cael eu cofnodi'n gywir, ac mae'r rhain yn cael eu llofnodi gan y staff a'r rhieni i ddangos eu bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf. Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw fod y staff yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ddyddiol iddynt am sut mae eu plentyn wedi bod yn ystod y dydd ac os bu damwain, cânt eu hysbysu'n llawn.

Mae'r staff yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid da ac yn annog plant i olchi eu dwylo, gan helpu i ddatblygu eu harfer hylendid personol yn effeithiol. Darperir byrbrydau iach gyda dewis o laeth neu ddŵr i'w yfed. Fodd bynnag, yn ystod amser cinio, mae sudd ffrwythau gwan yn cael ei weini i blant hŷn nad yw'n cyd-fynd â'r canllawiau cyfredol. Ers ein hymweliad, mae'r unigolyn cyfrifol wedi cadarnhau ei bod wedi mynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'r staff yn annog y plant i chwarae tu allan yn yr awyr iach i ddatblygu eu sgiliau corfforol yn dda. Maent yn sicrhau bod y plant yn barod i fynd allan i chwarae'n ddiogel mewn tywydd heulog a phoeth, er enghraifft, drwy sicrhau bod ganddynt eli haul a hetiau.

Mae'r staff yn cofnodi presenoldeb y plant a'u hunain yn gyson ond nid ydynt bob amser yn cofnodi eu seibiannau eu hunain. Cynhelir driliau tân, a chofnodir y canlyniad. Mae'r gweithdrefnau newid cewynnau yn unol â chanllawiau cyfredol.

Mae'r staff yn canmol y plant am eu hymdrechion yn gadarnhaol. Maent yn darparu amgylchedd cyfeillgar a chroesawgar ac yn sicrhau bod y plant yn cael sicrwydd a chysur. Mae hyn yn creu awyrgylch tawel a hamddenol.

Mae gan y staff ddull ymatebol o gynllunio gweithgareddau ac maent yn canolbwyntio ar y plant yn cyfeirio eu chwarae eu hunain yn dda ond yn colli cyfleoedd weithiau i ddatblygu dysgu'r plant. Maent yn olrhain cynnydd y plant ond nid yw canlyniadau a gwerthusiadau’r arsylwadau hyn bob amser yn cael eu hystyried yn llawn i gynorthwyo camau nesaf cynnydd pob plentyn. Nid yw'r gweithgareddau i addysgu'r plant am eu cymdeithas ehangach a'u hetifeddiaeth Gymreig wedi'u datblygu'n llawn. Mae'r staff yn ymgysylltu'n gyson â'r plant yn ystod eu gweithgareddau, er enghraifft, daliodd aelod o staff law plentyn i gerdded i lawr y grisiau a manteisio ar y cyfle hwn i ymarfer cyfrif. Maent yn annog y plant i

ymgysylltu â’r gymuned leol i wella eu medrau cymdeithasol, er enghraifft, roedd ffotograffau’n dangos plant yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau yn y llyfrgell leol ac yn casglu dail yn ystod taith gerdded.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'r amgylcheddau dan do ac awyr agored. Maent wedi gweithio'n galed i sicrhau bod yr ardaloedd hyn wedi'u trefnu'n ddeniadol ac wedi'u hawyru'n dda.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd diogel a glân lle gall y plant chwarae'n llwyddiannus.

Mae asesiadau risg yn nodi'n briodol y peryglon posibl i'r plant a pha fesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Ers COVID-19, mae'r unigolyn â gofal yn sicrhau bod y staff wedi cynyddu'r arferion glanhau ac yn dilyn canllawiau cyfredol. Mae gwybodaeth ar gael i bawb am sut y dylent ymdrin ag argyfyngau. Mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn dda.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod cynllun yr ystafell chwarae yn hybu annibyniaeth y plant, gan eu galluogi i archwilio a gwneud eu dewisiadau eu hunain ynghylch yr hyn y maent am chwarae ag ef. Mae'r teganau a'r adnoddau yn addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n derbyn gofal ac mae ganddynt ddodrefn o faint priodol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael mynediad hawdd at deganau ac adnoddau. Mae adnoddau ar gael ar gyfer datblygu sgiliau synhwyraidd, iaith, rhifedd a hunanymwybyddiaeth y plant. Fodd bynnag, nid yw'r defnydd o adnoddau cynaliadwy ac ailgylchadwy wedi'i ddatblygu'n ddigonol er mwyn datblygu sgiliau synhwyraidd a chwilfrydedd y plant ymhellach. Mae'r arweinwyr yn gwneud yn siŵr bod ardal benodedig ar gyfer eitemau personol y plant, ac mae hyn yn creu ymdeimlad o berthyn. Cyflwynant waith celf y plant yn hyfryd ac mae hyn yn dangos i'r plant bod eu hymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi. Er enghraifft, mae paentiadau ar y thema glan y môr o bysgod, cestyll tywod, sêr môr a slefrod môr o blatiau papur, yn addurno'r ardaloedd chwarae.

Mae'r ardal awyr agored wedi'i threfnu'n ddeniadol gydag amrywiaeth o offer i'r plant ddewis o'u plith a datblygu eu sgiliau corfforol a chydsymud. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael rhywfaint o gyfle i ddysgu am y byd naturiol ac mae ganddynt ardaloedd wedi'u trefnu er mwyn i'r plant blannu blodau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae’r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i wneud gwelliannau ac maent yn rheoli'r lleoliad yn dda.

Mae’r datganiad o ddiben yn darparu'r wybodaeth i'r rhieni am yr hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith, a chaiff y rhain eu gweithredu'n briodol a'u hadolygu'n rheolaidd, fodd bynnag, nid yw'r dyddiad adolygu diweddaraf yn cael ei nodi bob amser. Mae’r unigolyn cyfrifol wedi cyflwyno’r datganiad hunanasesu gwasanaeth i AGC ac wedi rhoi gwybod i ni am unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol yn y lleoliad. Mae gan y bobl sy’n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth dda o’u cyfrifoldeb i hyrwyddo’r Gymraeg ac mae'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ yn cael ei ddarparu.

Mae'r adroddiad sy'n adolygu ansawdd y gofal yn fyfyriol, gan amlygu'r hyn y mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda a'r hyn sydd angen ei ddatblygu ymhellach. Mae'r adroddiad yn cynnwys rhai o'r sylwadau a gasglwyd gan y rhai sy'n defnyddio'r lleoliad i gynorthwyo gwelliannau wrth fwrw ymlaen i gyflawni canlyniadau gwell i'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y gwiriadau datgelu a gwahardd ar gyfer staff a'u hyfforddiant gorfodol yn gyfredol. Mae'r wybodaeth ofynnol wedi'i choladu yn ffeiliau'r staff a'r plant. Cofnodir trafodaethau ar oruchwylio ac arfarniadau un-i-un â'r staff. Fodd bynnag, nid yw'r rhain bob amser yn cofnodi’r targedau perfformiad ar gyfer pob aelod o staff yn llawn er mwyn gwella eu harferion. Dywedodd y staff wrthym fod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn “gefnogol” a’u bod ar gael bob amser os oes angen. Dywedodd y staff y siaradwyd â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl a'u bod yn mwynhau gweithio yn y lleoliad.

Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw pa mor hapus ydyn nhw ar y lleoliad a bod eu plentyn yn hapus ac wedi ymgartrefu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â’r rhieni a'r gymuned leol. Mae profiadau cadarnhaol o'r fath yn helpu'r plant i ddod yn gyfarwydd â'r amgylchoedd o'u cwmpas a gwella eu sgiliau cymdeithasol.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1: Dilyn canllawiau bwyd a maeth Llywodraeth Cymru ar gyfer darparwyr gofal plant ar hydradu iach.

A2: Datblygu gwybodaeth ac arferion y staff am sut i ddatblygu dysgu'r plant, er enghraifft, ystyried defnyddio’r arsylwadau a wnaed ar gynnydd y plant i baratoi gweithgareddau ar gyfer eu camau dysgu nesaf.

A3: Cynnwys y defnydd o adnoddau wedi'u hailgylchu ac adnoddau cynaliadwy i ddatblygu sgiliau synhwyraidd a chwilfrydedd plant.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf.  Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| | yn yr arolygiad hwn | |
| | Rheoliad 28 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (“Rheoliadau 2010”): Addasrwydd y gweithwyr: | Cyflawnwyd |

| Graddau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy’n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy’n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i’w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni’r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i’w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy’n effeithio’n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyrannu hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 15/08/2022